CYNGOR BRO LLANGELER – 29-07-2019

Cofnodion Cyfarfod Nos Lun Gorffennaf 29ed 2019 yn Neuadd y Ddraig Goch, Felindre, Llandysul am 7.30y.h.

1. **07/19 PRESENNOL:** Yn y gadair – Cyng. Marc Rees, Cynghorwyr: Jamie Ayres, Delyth Evans, Richard Evans, Aled Eynon, Ken Howell, Brenda Jones, Christopher Jones, Nesta Jones, Marc Rees, Dilwyn Smith, John Wigley. Clerc – Stella Jones
   HEFYD YN BRESENNOL – Heddlu , Cyfieithydd, aelod o'r cyhoedd

2. **07/19 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. John Crossley, a Adrian Thomas,

3. **07/19 DATGANIADAU DIDDORDEB :-** Materion yn Codi – 6.xx. &9.c.ii. Cllr. A Eynon
   " " " " 9.c.ii. Cllrs K Howell, N Jones, D Smith, 9.c.i. B Jones
   Cyllid – 9.a.iii & 9.c. – Cyng. D Evans

4. **07/19 HEDDLU:** PCSO Bradley Davies - *ar gyfer cael noson siarad am sgamwyr a 'galwyr oer,' cwrs gloywi diffibrilydd - awgrymodd J Kedward Awst 23 credwyd byddai'n well cael dyddiad ym mis Medi. Ynghylch tractorau sy'n gor-deithio o gwmpas cefn gwlad angen enwau y contractwyr. Dwedodd bod y ddau wedi bod yn teithio o gwmpas y pentrefi yn ystod y mis diwethaf. Ynghylch y parcio o flaen gatiau'r Parc awgrymwyd efallai y byddai'n syniad cael arwydd 'Dim Parcio' Codwyd y mater bod arwyddion yn cael eu gadael yn hir ar ochr y ffordd ar ôl damwain. Nodwyd bod plant yn chwarae 'chicken'ger stâd tai Trewern a thaflu cerrig at ceir ger Dolhaidd.*

5. **07/19 COFNODION:** derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Misol Mehefin 24ed 2019 a'i cael yn gywir.
   Cynigydd – Cyng. D Evans Eilydd – Cyng. D Smith

6. **07/19 MATERION YN CODI :**
   7.xv.05/16 Caeau Canmlwyddiant – *dim i adrodd*
   10.11.07/16. Toiledau Parc Puw – *peintio yn dal heb ei wneud*
   10.i.06/17 Tir Temple – *derbyniodd y Clerc adroddiad wrth Jason Lawday am yr hyn oedd y sefyllfa ar hyn o bryd*
   6.xx. Lês Cae Chwarae Maesyderi, Pentrecwrt – *mae cyfreithiwr y Cyngor yn aros i glywed wrth pwyllgor y Parc pwy yw ei Cyfreithiwr cyn medru bwrw mlaen a chwblhau'r lês*
   10.01/19 Dadorchuddio Plac Caeau Canmlwyddiant – *dim i ychwanegu ar hyn o bryd*
   7. xiii.05/19 – Ian Cameron – *Cytunwyd, yn dilyn ymweliad ac adroddiad Cyng J Crossley a M Rees a'r safle, y dylid cael llwyth o raean i lenwi'r tyllau cyn bellad a bod Mr Cameron yn barod i'w wasgaru.*

7. **07/19 GOHEBIAETH:**
   i. Jonathan Edwards - Cronfa Gymunedol/Dreftadaeth - Sesiwn wybodaeth Ariannu 26/07/19 Gerddi Botaneg
   ii. ebost – ULlC –Bwletin Newyddion Gorffennaf 2019 – *cylchlythyrwyd*
   iii. ebost – Marc Rees – *cylchlythyrwyd*
   iv. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 24.06.19 - 28.06.19 – *cylchlythyrwyd*
   v. ebost – CCC – Jason Lawday – *cylchlythyrwyd*
   vi. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 01.07.19 - 05.07.19 – *cylchlythyrwyd*
   vii. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 08.07.19 - 12.07.19 – *cylchlythyrwyd*
   viii. ebost –Ll.C – Datganiad Ysgrifenedig: Rhyddhad Ardrethi Annomestig ar gyfer Toiledau Cyhoeddus – *cylchlythyrwyd*
   ix. ebost – Hywel Dda – Dyddiad aildrefnu: Digwyddiad Galw Heibio Caerfyrddin Datblygu Gwasanaethau Trawma – *cylchlythyrwyd*
   x. ebost – Police & Crime Panel News – *cylchlythyrwyd*
   xi. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 15.07.19 - 19.07.19 – *cylchlythyrwyd*
   xii. ebost – Cyngor Ceredigion - Ymgynghori ynghylch Strategaeth a Ffefrir CDLl2
   xiii. ebost – Cyngor Ceredigion - Ymgynghori ynghylch Safleoedd Posib Ychwanegol CDLl – *cylchlythyrwyd*
   xiv. ebost – CSG – Cynnig Dargyfeirio llwybr cyhoeddus 12/122 – *cylchlythyrwyd*
   xv. ebost – CSG – cau ffordd dros dro: U5408 Felindre, Llandysul – ddim yn digwydd bellach – *cylchlythyrwyd*
   xvi. ebost – Ken Howell – Grant Loteri
   xvii. ebost – CSG – Cynnig Dargyfeirio llwybr cyhoeddus 12/110 – *cylchlythyrwyd*
   xviii. ebost – ULlC – Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol Un Llais Cymru 05/10/19 – *cylchlythyrwyd*
   xix. ebost – Richard Evans – Carreg Filltir Saron – *mae hon wedi ei gosod nôl yn y safle, diolch i Cyng R Evans am ei waith ditectif.*
   xx. ebost – Eglwys Sant Pedr – Gwahoddiad i Ŵyl Diwrnod Bosworth 10/08/19
   xxi. ebost – cau hewl ar frys U5470 Llainwen, Saron – *cylchlythyrwyd*
   xxii. ebost – Stephen Thomas CSG – Hysbysiad Gorfodi – *rhestr o'r llefydd sydd a gorfodiaeth arnynt*
   xxiii. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 22.07.19 -26.07.19 – *cylchlythyrwyd*
   xxiv. ebost – ESN40137 – gosodiad cyfathrebu arfaethedig ar gyfer gwasanaethau brys – *cylchlythyrwyd*
   xxv. ebost – CSG – Bwriad gan BT i gael gwared ar giosgau ffonau talu – *cylchlythyrwyd*

_____ Cadeirydd _____ Dyddiad

8. 07 /19 CYNLLUNIO

Cais Ymgynghori llawn

W/39037 – Plot 8, Hafod Hedd, Saron SA44 5DR– tŷ sengl – *cefnogi*

W/39053 – West View, Bancyffordd SA44 4RY – estyniad arfaethedig i'r llawr cyntaf yn cynnwys mân newidiadau i'r ffenestri a'r drysau i flaen y tŷ. Codi wal gynnal ar wal hyd y ffordd i alluogi llanw lan a lefeli'r ddaear i'w wneud yn ddefnyddiol – *cefnogi*

W/39067 – 4 Cambrian, Drefach SA44 5UP – newidiadau ac estyniad i'r gweithdy/storfa presennol - *cefnogi*

W/39085 – Llwyniorwg, Drefach SA44 5UH – estyniad i gefn y tŷ presennol a newidiadau i tu fewn yr adeilad – *cefnogi*

W/39116 – Moelfryn, Pantybwlch, CNE,SA38 9JE –anedd menter wledig arfaethedig sy'n cynnwys mynedfa cerbydau, garej a gosod triniaeth pacio – *dim barn*

W/39128 – Sŵn Esgair,Felindre SA44 5XG – estyniad sengl unllawr – *dim gwrthwynebiad*

9. 07/19 MATERION ARIANNOL

a. Anfonebau

i. TRYWYDD – cyfieithu yng nghyfarfod 29/07/2019 .....£71.40

ii. HIRIO NEUADD y DDRAIG GOCH – cyfarfod 29/07/19.....£10.50

[*caniatâd wedi rhoi i dalu'r ddau uchod fel daw'r taleb fewn*]

iii. GWASG GOMER £2,967.00

iv. MALCOLM JAMES £524.00

v. SLCC [aelodaeth] £156.00

vi. STELLA JONES [stampiau] £15.72

vii. DILWYN SMITH [anti virus] £40.00

viii. YSWIRIANT PARC PUW £537.26

Arian yn y Banc ar 17/07/19 .....£17,459.48

b. S/O

Cyflog y Clerk £600.00

c. Cais am Gefnogaeth Ariannol

Merched y Wawr - £280

Pwyllgor Apêl Eisteddfod yr Urdd ardal Llangeler - £100 [ystyried hyn eto yn y flwyddyn ariannol nesaf]

10. 07/19 MATERION ANGEN TRAFODAETH

Arwydd Llwybrau Gwlân – *yn dilyn adroddiad gan Malcolm James am gyflwr yr arwydd a'i awgrym i'w drwsio cytunwyd gofyn iddo ymgymryd a'r gwaith. Y Clerc i siarad a'r gŵr sydd wedi bod yn gwneud y byrddau i gael pris i ail argraffu bwrdd sydd ar Sgwâr Gât.*

11. 07/19 SYLWADAU'R CYNGHORWYR

1. Cyng J Wigley – i. gofyn y cwestiwn beth sy'n digwydd ynghylch y bollards sydd yng Nghwmpengraig
2. Cyng B Jones – i. achwyn am y broses o lenwi tyllau ar ein hewlydd – *ysgrifennu at y Cyngor Sir*
3. Cyng D Evans - i. cytunodd a Brenda Jones a dwedodd bod cyflwr cylchfan Llandysul yn ddifrifol
4. Cyng M Rees – i. rheiliau o Davies a Davies draw am Pwllmarl wedi torri

12. 07/19 CYFARFOD NESAF

Cynhelir y cyfarfod Misol nesaf yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr, Felindre, Llandysul nos Lun Medi 30ain 2019 am 7.30 yh.

Daeth y Cyfarfod i ben am 9.00yh

_____ Cadeirydd _____ Dyddiad

.